

Ysgolion yr 21ain Ganrif Dogfen Ymgynghori 2020

YSGOL GYMRAEG CWM GWYDDON

14 Medi 2020 – 26 Hydref 2020



Mae'r ddogfen hon ar gael yn electronig yn

<https://www.caerffili.gov.uk/Services/Schools-and-learning/21st-Century-Schools?lang=cy-gb>

Gellir hefyd gofyn am y wybodaeth mewn fformatau ac ieithoedd eraill, yn ogystal ag ar ffurf copi caled.
Cysylltwch â ni ar 01443 864817 i drefnu hyn.



Ysgolion a Cholegau yr 21ain Ganrif
21st Century Schools and Colleges



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

TABL CYNNWYS	
Rhagarweiniad	
➤ Beth yw cynnwys y llyfryn hwn?	Tudalen 3
➤ Beth yw'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif?	Tudalen 3
➤ Beth rydym yn cynnig ei wneud?	Tudalen 4
Y Broses Ymgynghori	
➤ Pwy rydym yn cynnal trafodaethau â nhw?	Tudalen 6
➤ Sut y gallwch gael rhagor o wybodaeth?	Tudalen 7
➤ Safbwyntiau plant am y cynnig	Tudalen 7
Pam ein bod yn cynnig y newidiadau hyn?	
➤ Gwybodaeth Gefndir	Tudalen 8
➤ Cynllunio Lleoedd Ysgol	Tudalen 10
➤ Cyflwr ac Addasrwydd adeiladau'r ysgol	Tudalen 10
➤ Prif Gynllun Enghreifftiol	Tudalen 11
Sut y bydd hyn yn effeithio ar ysgolion eraill?	
➤ Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar a'r Galw a Ragamcenir	Tudalen 12
➤ Darpariaeth y Blynyddoedd Cynradd, Model 'Ysgol sy'n Tyfu' a Derbyniadau	Tudalen 13
➤ Trefniadau'r Dalgylch	Tudalen 14
➤ Amharu ar ddisgyblion	Tudalen 15
➤ Darpariaeth Uwchradd	Tudalen 16
Beth fydd effaith y cynnig?	
➤ Arweinyddiaeth, Ansawdd a Safonau Addysg	Tudalen 16
➤ Trefniadau Llywodraethu a Chategoreiddio'r Ysgol	Tudalen 19
➤ Materion yn ymwneud â'r Staff	Tudalen 19
➤ Materion Ariannol	Tudalen 20
➤ Effaith ar y Ddarpariaeth Gymraeg	Tudalen 20
➤ Trefniadau Teithio gan Ddysgwyr	Tudalen 21
➤ Cydraddoldebau	Tudalen 22
➤ Cyfleusterau Arbenigol / Anghenion Dysgu Ychwanegol	Tudalen 24
➤ Effaith ar y Gymuned a Budd i'r Gymuned	Tudalen 25
Beth yw manteision y cynnig?	
➤ Manteision	Tudalen 26
➤ Anfanteision	Tudalen 26
➤ Risgiau	Tudalen 27
➤ Opsiynau gwahanol sydd wedi'u diystyru	Tudalen 28
Y Camau Nesaf	
➤ Y Cyfnod Ymgynghori a Dyddiadau Allweddol	Tudalen 32
➤ Hysbysiadau Statudol, Cyflwyno Adroddiadau a Gwneud Penderfyniadau	Tudalen 32
➤ Dweud eich dweud	Tudalen 33
Gwybodaeth Ategol	
➤ Cwestiynau Cyffredin	Tudalen 35
➤ Ffurflen Adborth	Tudalen 36



Rhagarweiniad

➤ Beth yw cynnwys y llyfryn hwn?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi dechrau ar daith gyffrous, ond heriol, i gyflwyno gwelliannau a newidiadau.

Mae angen i Ysgolion yng Nghymru fod mewn cyflwr da ac yn addas i ddarparu addysg. Mewn rhai achosion, gellir moderneiddio, trwsio, adnewyddu, ehangu neu ailadeiladu ysgolion yn rhannol i gyrraedd y safonau sydd eu hangen ar gyfer dulliau addysgu a dysgu cyfoes. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn y lleoliad cywir ar hyn o bryd ac mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn cynnig adeiladu ysgolion newydd neu newid ysgolion sydd eisoes yn bodoli.

Rydym yn anelu at barhau i godi safonau ysgolion a gwella safonau'r amgylchedd dysgu i greu ysgolion yr 21ain ganrif a rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn yng Nghaerffili.

Mae'r llyfryn hwn yn berthnasol i unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerffili a gall fod o ddiddordeb i rieni/gwarcheidwaid plant sy'n mynychu, neu sy'n disgwyl mynychu, Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon.

Mae Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon wedi cael ei nodi fel safle o flaenoriaeth i'w ddatblygu. Mae'r llyfryn hwn yn nodi'r newidiadau rydym yn eu hawgrymu i'r cyfleuster addysg cynradd hwn yn y Fwrdeistref a'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig hyn.

Mae'r broses ymgynghori yn cynnig cyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau a gaiff eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ar yr ymgynghoriad. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i ystyried pan fydd y Cabinet yn penderfynu sut i weithredu.

➤ Beth yw'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif?

Mae'r rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif yn rhaglen buddsoddi cyfalaf strategol, bwysig yn yr hirdymor. Caiff ei hariannu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a'i nod yw creu cenhedlaeth o ysgolion yr 21ain ganrif yng Nghymru.

Cafodd rhan gyntaf y rhaglen (Band A) ei chynnal o 2014 i fis Mawrth 2019.

Mae Caerffili wedi cael llawer o fudd o fuddsoddiadau yn sgil rhaglen gychwynnol "Band A" Ysgolion yr 21ain Ganrif, gyda tua £56.5 miliwn o fuddsoddiad at ddefnydd addysgol a chymunedol.

Cafodd cyllid Band A yng Nghaerffili ei ddefnyddio ar gyfer y canlynol:



- ✓ Ysgol Uwchradd Islwyn
- ✓ Ysgol Gymraeg Cwm Rhymni, Campws y Gwyndy
- ✓ Ysgol Idris Davies 3-18
- ✓ Estyniad i Ysgol Trecelyn
- ✓ Gwelliannau i Ysgol Gyfun y Coed-duon
- ✓ Cae 3G Ysgol Gyfun y Coed-duon
- ✓ Gwelliannau i Ysgol Cae'r Drindod

Dechreuodd ail ran y cyllid hwn (Band B) ym mis Ebrill 2019, ac roedd y meysydd o flaenoriaeth yn cynnwys:

- Lleihau nifer yr ysgolion sydd mewn cyflwr gwael
- Sicrhau bod gennym ysgolion o'r maint cywir, yn y lleoliadau cywir
- Cynnig digon o leoedd i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg
- Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystâd addysgol

Cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Raglen Amlinellol Strategol a chafodd gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru mewn egwyddor ar gyfer buddsoddiad a nodwyd o £78 miliwn, yn amodol ar gymeradwyaeth ac ymgynghoriad unigol ar y prosiect.

Mae'r rhaglen yn nodi'r weledigaeth strategol ar gyfer rhaglen Band B yng nghyd-destun blaenoriaethau a nodau llesiant y Cyngor. Gwnaethom nodi bod angen buddsoddi mewn gwella adeiladau ein hysgolion, ateb y galw am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, lleihau nifer y llefydd gwag a datblygu cyfleusterau a rennir ac sydd wedi'u cyd-leoli – a dyma'r dyhead y mae'r cynnig hwn yn seiliedig arno.

➤ Beth rydym yn cynnig ei wneud?

Rydym yn cynnig gwneud y canlynol:

- **Adleoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon i ysgol Gymraeg bwrpasol newydd ar hen safle gwag Ysgol Uwchradd Cwmcarn (Cwmcarn, NP11 7NG) gyda dyddiad meddiannu a ragwelir ym mis Medi 2023**
- Bwriedir i'r adeilad newydd ymgorffori cyfleuster cynradd yn cynnwys Gofal Plant, Canolfan Adnoddau Arbennig, Meithrinfa, ardal i blant sy'n codi'n dair oed, ystafelloedd dosbarth ar gyfer y brif ysgol, prif neuadd, ardal technoleg bwyd, llyfrgell ac ardal ar gyfer Technoleg Gwybodaeth.
- Bydd digon o le yn y safle a nodwyd ar gyfer adeilad newydd a fydd yn lletya tua 420 o ddisgyblion yn ogystal â 60 o blant yn y feithrinfa ac 16 yn y Ganolfan Adnoddau Arbennig. Bydd hefyd yn sicrhau mynediad cyfartal drwy hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu addysg gynhwysol drwy'r cwricwlwm llawn i ddisgyblion mewn amgylchedd dysgu cyfoes, diogel ac ysbrydoledig.

- Bydd yr adeilad newydd yn darparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21ain Ganrif, gan gynnwys cyfleusterau TGCh gwell, sy'n canolbwyntio ar ddysgu, hunan-barch a llesiant pob disgybl a gwella'r cyfleoedd dysgu gydol oes i aelodau o'r gymuned gryfhau a diogelu'r broses o hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant a threftadaeth Cymru ledled ardal Dwyrain Caerffili
- Bydd yr adeilad newydd yn gwella'r ardal ddysgu yn yr awyr agored drwy gynnig ardaloedd chwarae allanol, ardal Gemau Amlbwrpas tarmacadam a mynediad at gae chwarae glaswellt. Caiff y posibilrwydd o alluogi'r gymuned i ddefnyddio'r cyfleusterau chwaraeon ar adegau addas hefyd ei ystyried yn unol ag amserlen y cwricwlwm
- Bydd y prosiect arfaethedig yn ystyried y dyhead i annog a hwyluso'r gymuned i ddefnyddio'r ased. Bydd y broses ddylunio yn ceisio cynnwys mesurau i allu creu 'parthau' diogel mewn rhannau o adeilad yr ysgol newydd, gan gynnwys y neuadd ac ardal ystafell ddosbarth amlbwrpas y gellir addasu eu defnydd.



Llyfrgell / Ardal TG / Ymneilltuo – 'Y Stryd'



Ystafell Ddosbarth Gyffredin



Ardaloedd Chwarae Meddal Awyr Agored



Neuadd a'r Ardal Fwyta

Mae'r lluniau uchod yn enghreifftiau o'r hyn a gyflawnwyd fel rhan o brosiect Band A yn Ysgol Idris Davies 3-18, Rhymni



Y Broses Ymgynghori

➤ Pwy rydym yn cynnal trafodaethau â nhw?

Rhaid i'r broses ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Rhaid cyhoeddi cynigion pan fyddwn yn gwneud 'newid a reoleiddir' i ysgol a arbennig o dan Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Mae rhwymedigaeth arnom i hysbysu'r canlynol o'n cynigion mewn llythyr neu dros e-bost:

- Rhieni, darpar rieni, gwarcheidwaid a gofalmwyr holl ddisgyblion yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol
- Penaethiaid, staff a llywodraethwyr yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol
- Disgyblion/Cynghorau Disgyblion yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol
- Cyfarwyddwyr Addysg pob Awdurdod Lleol cyfagos – Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Casnewydd, Powys, Rhondda Cynon Taf, Torfaen
- Bwrdd Addysg yr Esgobaeth Gatholig
- Bwrdd Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru
- Y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Lleol ar Addysg Grefyddol (SACRE)
- Cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried bod y cynnig yn debygol o effeithio arnynt
- Aelodau lleol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Pob Aelod Cynulliad ac Aelod Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol
- Gweinidogion Cymru
- ESTYN
- Cymdeithasau Addysgu
- Cymdeithasau Staff Cymorth
- Consortiwm De Ddwyrain Cymru (EAS)
- Cynghair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA)
- Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru
- Cynghorau Cymuned a Thref lleol
- Mudiad Meithrin a darparwyr meithrinfeydd gwirfoddol
- Menter Iaith
- Y Bartneriaeth Datblygu'r Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Y Rhwydwaith Rhieni
- Y Fforwm Addysg Gymraeg
- Comisiynydd y Gymraeg



➤ Sut y gallwch gael rhagor o wybodaeth?

Mae'n hollbwysig cynllunio a datblygu cynigion effeithiol ar gyfer trefnu ysgolion er mwyn cyflawni nod Llywodraeth Cymru o drawsnewid addysg yng Nghymru a darparu deilliannau addysgol gwell, gydag ymrwymiad i wella effeithiolrwydd ysgolion a lleihau anghydraddoldebau ymhlith ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a difreintiedig.

Yn ôl Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi gwybodaeth i wneud penderfyniadau mewn ffordd dryloyw, gytbwys ac agored wrth gwblhau proses ymgynghori mewn cysylltiad â chynnig ar gyfer ysgol.

Fel rhan o'r cynnig hwn, mae'r dogfennau canlynol wedi'u creu:

- Dogfen Ymgynghori yn nodi'r cynnig (y ddogfen hon)
- Crynodeb o Hawliau Plant a Phobl Ifanc
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned (wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon)

Cyfres o ofynion cyfreithiol gyfrwymol yw Safonau'r Gymraeg â'r nod o alluogi pobl yng Nghymru i dderbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Safonau'n nodi ein cyfrifoldebau'n glir o ran darparu gwasanaethau dwyieithog, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Felly, caiff pob dogfen ei chyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg a gellir hefyd gofyn amdanynt mewn ieithoedd neu fformatau eraill. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor

<https://www.caerffili.gov.uk/Services/Schools-and-learning/21st-Century-Schools?lang=cy-gb>

Gellir gofyn am gopiâu caled ac mae rhagor o fanylion am y prosesau a'r amserlenni ar gael yn nes mlaen yn y ddogfen hon yn yr Adran **'Y Camau Nesaf'**.

Noder: Bydd Adran Gwasanaethau Eiddo'r Awdurdod yn cynnal Proses Ceisiadau Cynllunio ar wahân a bydd manylion am bob gais ar wefan y Cyngor pan fydd y broses wedi dechrau:

<https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Planning-and-building-control/Planning-applications?lang=cy-gb>

➤ Safbwyntiau plant am y cynnig

Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod rhoi llais i bobl ifanc yn golygu eu cynnwys fel cyfranogwyr yn y broses o ddatblygu, cyflawni, rheoli a gwella eu profiadau addysgol ac fel myfyrwyr a bod angen iddynt fod wrth wraidd y gwaith o gynllunio, darparu a gwerthuso.

Mae gan bobl ifanc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n effeithio arnynt a dylid sicrhau bod pwys priodol yn cael ei roi ar eu barn yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai pobl ifanc wella'r broses o wneud penderfyniadau yn ogystal â rhannu safbwyntiau a chymryd rhan fel dinasyddion a hwyluswyr newid.

Mae hyn hefyd yn amlwg yn adroddiad Estyn 'Cyfranogiad disgyblion: canllaw arferion gorau', sy'n dangos sut y gellir cyflawni buddiannau i ddisgyblion a helpu ysgolion i wella drwy alluogi pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses.

Bydd Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif yng Nghaerffili yn sicrhau y caiff trefniadau addas eu gwneud i ymgynghori â phobl ifanc a'u cynnwys yn y broses, yn ogystal ag ar ôl i'r gwaith ddod i ben, wrth gyflwyno unrhyw gynnydd.

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â disgyblion yn yr ysgol a chaiff y wybodaeth a gesglir ei chynnwys yn yr adroddiad terfynol ar yr ymgynghoriad. Caiff cyfarfod rhithwir gan ddefnyddio technoleg fideo gynadleda (Microsoft Teams / Zoom) ei gynnal i drafod y cynnydd gyda'r cyngor ysgol ac egluro'r fersiwn sy'n addas i blant o'r ddogfen Ymgynghori. Bydd y drafodaeth hon a gaiff ei recordio yn cael ei cynnwys yn y dogfennau a anfonir ymlaen at y Cabinet i'w hystyried unwaith i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.



Pam ein bod yn cynnydd y newidiadau hyn?

➤ Gwybodaeth Gefndir

Gall adeiladau newydd chwarae rhan allweddol fel lleoedd i ysbrydoli ac addysgu ein plant, ond hefyd fel amgylcheddau dysgu bywiog a dynamig i alluogi disgyblion o bob oedran i ddysgu a thyfu, ac at ddefnydd teuluoedd a'r gymuned ehangach. Ein nod yw sicrhau mynediad cyfartal drwy hyrwyddo a chefnogi'r broses o ddatblygu addysg gynhwysol ac ymrwymo i ddarparu addysg a gwasanaethau o'r radd flaenaf gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu addysg o ansawdd uchel i bob plentyn a pherson ifanc, sydd wedi'i theilwra i ddiwallu eu hanghenion gan ddatblygu eu potensial, ehangu eu gorwelion, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chyfrannu at adfywiad economaidd yr ardal. Er bod cynnydd wedi'i gyflawni, mae gwaith ar ôl i'w wneud i wella canlyniadau a llesiant plant a phobl ifanc.

Yn ogystal â hyn, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili yn 2018. Mae 11 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, ac mae pob un ohonynt yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Drwy sefydlu'r cyfleuster newydd hwn sy'n addas at y diben yn ogystal ag adleoli'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon, bydd yn helpu i gyflawni'r amcanion hyn ac yn cefnogi siarter Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru erbyn 2050.

Erbyn mis Tachwedd 2020, bydd Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Gwyddon wedi bod ar y safle presennol ers 20 mlynedd. Wedi'i lleoli yng nghanol pentref bach, yr ysgol yw trydydd deiliad y safle, sydd wedi newid sawl gwaith dros y blynyddoedd i wneud y defnydd gorau posibl o'r ased.

Mae tua 260 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 180 ychwanegol i'r cysyniad gwreiddiol i letya ar gyfer 80 o ddisgyblion pan drosglwyddwyd y safle i'r ysgol yn wreiddiol.

Mae safle'r ysgol yn ymestyn dros tua 0.3 hectar, sy'n cynnwys pum strwythur ac ardaloedd chwarae cyfyngedig yn yr awyr agored. Mae holl ochrau'r safle'n amgaeedig, heb unrhyw le i'w hymestyn, ac nid oes unrhyw lwybr mynediad uniongyrchol heblaw am stryd gefn wrth ymyl y tafarndai lleol a sefydliad y pentref. Mae'n amlwg hefyd bod y safle ar ryw faint o lethr, gan

olygu bod yr ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored ar sawl lefel, sy'n lleihau mynediad ac ymarferoldeb yn sylweddol i unigolion llai abl.



Er bod Adroddiad Estyn yn 2013 wedi nodi y *'Gwneir y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael y tu mewn a thu allan i'r adeilad i gyfoethogi'r cwricwlwm'*, mae natur y safle wedi arwain at gyfyngiadau. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi y *'Gwneir defnydd pwrpasol o dir ac adeilad yr ysgol ar gyfer chwarae a dysgu'* a bod *'adnoddau digonol ar gyfer dibenion y cwricwlwm.'* Fodd bynnag, yn sgil y datblygiadau yn y cwricwlwm dros y chwe mlynedd diwethaf a phwysau cynyddol gan y Cwricwlwm newydd i Gymru, caiff rhagor o bwysau ei roi ar sicrhau bod adnoddau a chyfleusterau sy'n addas at y diben ar gael a bydd yn parhau i ddigwydd os na chaiff y sefyllfa ei newid.

Yn arolwg yr ysgol ym mis Mai 2018, ystyriwyd bod Ysgol Cwm Gwyddon eisoes wedi cyrraedd ei disgwyliad oes o 60 mlynedd. Er gwaethaf y buddsoddiadau yn y safle, nid oes modd ei ddatblygu o safbwynt addysgol ac nid oes digon o le ar y safle presennol i ehangu'r ysgol ymhellach.

Mae'r Awdurdod o'r farn mai'r cynnig hwn yw'r cyfle gorau i ddiogelu a chynnal safonau addysgol ar gyfer y dyfodol ac mae'n ffordd o wella drwy fuddsoddi'n sylweddol mewn cyfleusterau parhaol. Bydd yn darparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21ain Ganrif, gan gynnwys cyfleusterau TGCh gwell, ardal chwarae yn yr awyr agored a mynediad i'r gymuned sy'n canolbwyntio ar ddysgu, hunan-barch a llesiant pawb.

Fel y mae ESTYN wedi'i ddangos, mae cysylltiad cryf rhwng adeiladau ysgolion gwell a pherfformiad gwell. Bydd perfformiad gwell mewn ysgol yn golygu y caiff mwy o ddisgyblion fynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol, gan gynyddu màs critigol a rhoi mwy o gyfleoedd addysgu proffesiynol i athrawon.

➤ Cynllunio lleoedd ysgol

Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru sicrhau ei fod yn darparu digon o leoedd mewn ysgolion i ddisgyblion o bob oedran er mwyn darparu addysg o'r radd flaenaf iddynt a sicrhau bod cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru hefyd ddarparu lleoedd sy'n diwallu anghenion disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg a ffydd yn ogystal â bod yn addas ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

Mae cynnydd sylweddol wedi bod mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ers iddi gael ei sefydlu yn 1996. Mae nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd wedi cynyddu fwy na 60% i'r lefel bresennol sydd dros 2,900. Yn ystod yr 20 mlynedd yma, mae tair ysgol newydd wedi cael eu sefydlu, gyda'r 7 o'r 8 ysgol wreiddiol naill ai'n cael eu disodli neu eu haddasu / hymestyn i gynyddu'r capasiti. Mae ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth, fel y dangosodd Band A ac fel rhan o'r cynnig Band B yma o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.

➤ Cyflwr ac Addasrwydd adeiladau'r ysgol

Yn ogystal â sicrhau bod y nifer cywir o leoedd ar gael mewn ysgolion, rhaid i'r cyngor sicrhau bod cyfleusterau'r ysgol yn addas at y diben. Rhaid i ysgolion gefnogi'r broses o ddarparu addysg o ansawdd uchel.

Mae pob ysgol sydd eisoes yn bodoli yng Nghaerffili wedi derbyn arolwg o Gyflwr yr Adeilad yn ddiweddar. Mae arolygon o gyflwr yn gofnodion archwiliadwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chânt eu cynnal gan bersonél sy'n meddu ar y cymwysterau a'r profiadau addas. Nodwyd bod safle presennol Cwm Gwyddon yng nghategori cyflwr C ar raddfa o A (rhagorol) i D (gwael).



Cafodd y prif adeilad presennol (yn y llun uchod) ei adeiladu yn tua 1890 ac mae'n cynnwys dau lawr. Mae tair ystafell ddosbarth, ystafelloedd cotiau disgyblion, dwy swyddfa a derbynfa ar y llawr gwaelod. Mae hefyd yn cynnwys neuadd nad yw'n cynnig y capasiti gofynnol i

gyflawni'r angen cwricwlaidd yn llawn (h.y. mae angen rhannu'r dosbarthiadau Addysg Gorfforol yn hanner gan mai dim ond lle ar gyfer 15 o ddisgyblion sydd fesul sesiwn) ac nid oes mynediad uniongyrchol i ardal chwarae yn yr awyr agored. Nid oes modd chwaith i gynnal gwasanaethau a chyngherddau i'r ysgol gyfan, ac mae'r ysgol yn defnyddio cyfleusterau oddi ar y safle ar eu cyfer megis y Neuadd Goffa yn Nhrecelyn sydd tua dwy filltir o'r ysgol. Er bod hyn yn golygu costau rhentu a theithio, yn bwysicach oll, mae'n arwain at broblemau amserlennu sylweddol a cholli amser addysg i'r disgyblion. Oherwydd y cambr sydd ar y safle, mae'r adeilad yn cynnwys llawer o risiau mewnol i gyrraedd y lefel sydd wedi'i rannu.

Rhaid defnyddio grisiau i gyrraedd y llawr cyntaf ac nid yw'n gwbl hygyrch. Mae'n cynnwys pedair ystafell ddosbarth ychwanegol, ystafell TGCh ac ystafell y gellir ei defnyddio fel llyfrgell neu ystafell gerdd heb lawer o le storio. Daethpwyd o hyd i asbestos hefyd yn neunydd yr adeilad, ac er ei fod yn cael ei reoli a'i ddal yn ofalus ar hyn o bryd, mae'n cyfyngu ar unrhyw addasiadau ychwanegol i'r safle.

Mae'r ail adeilad sylweddol ar y safle yn cynnwys y brif gegin, ardal fwyta, y Cylch Meithrin a'r ddarpariaeth Menter Iaith. Dim ond 80 o bobl a all ddefnyddio'r ardal fwyta ar y tro, sy'n gosod gofynion logistaidd ychwanegol ar amserlen yr ysgol i ddarparu ar gyfer pob disgybl gan olygu bod amser cinio yn ymestyn dros ddwy awr. Mae'r cyfleuster yn cynnwys dau bwynt mynediad y gellir eu cyrraedd gan ddefnyddio'r grisiau yn unig, sef pam bod y neuadd yn cael ei defnyddio ar gyfer y gorlif gyda mynediad ar ffurf ramp, gan olygu na ellir cynnal gweithgareddau allgyrsiol yn ystod y cyfnod hwn.

Mae tri adeilad modwlar parod ag un llawr yn ogystal â chynhwysydd storio i ddarparu ar gyfer y disgyblion ychwanegol ac anghenion storio'r safle. Mae'r adeiladau ychwanegol hyn wedi cael eu hadleoli a'u hadnewyddu o ysgolion eraill, gan leihau'r ardal chwarae awyr agored yn sylweddol.

➤ Prif Gynllun Enghreifftiol

Mae'r 'Sylfaen ar gyfer Llwyddiant' yn darparu fframwaith ar gyfer adfywio'r Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol hyd at 2023. Mae'r ddogfen yn nodi'r blaenoriaethau strategol ar gyfer yr adfywiad mewn pedair thema allweddol:

- Helpu Pobl (lleihau anghydraddoldeb, meithrin gallu a gwydnwch i greu cymunedau iachach, ffyniannus, cydlynol);
- Helpu Busnes (creu cyfleoedd cyflogaeth, cynyddu gweithgareddau entrepreneuriaidd, annog arloesi a gwella mynediad at gyflogaeth);
- Helpu Ansawdd Bywyd (darparu'r amgylchedd ffisegol cywir ar gyfer ein cymunedau a fydd yn eu hannog i ffynnu);
- Cysylltu Pobl a Lleoedd (gwella cysylltedd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn fyd-eang).

Mae cyfres o gynlluniau gweithredu a strategaethau wedi'u targedu yn ategu'r Strategaeth Adfywio sydd wedi'u hanelu at achub ar gyfleoedd adfywio a datblygu safleoedd allweddol ledled y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r Prif Gynllun yn nodi sawl prosiect yn yr ardal a allai arwain at fudd economaidd a chymunedol sylweddol, a bydd yn darparu fframwaith ar gyfer rhedeg y prosiectau hynny.



Sut y bydd hyn yn effeithio ar ysgolion eraill?

Caiff newidiadau mewn un rhan o'r sector Addysg yn y Sir effaith ehangach ar ysgolion eraill a'u disgyblion. Wrth ystyried pob cynnig, caiff y dull o sicrhau bod y rhwydwaith addysg yn gynaliadwy ac yn cael ei gwella yn ogystal â'r ardal ehangach eu hystyried. Rhoddir ystyriaeth briodol i effaith y cynnig hwn a chaiff ymgynghoriad ei gynnal â phob ysgol y mae'n effeithio arni.

➤ Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar a'r Galw a Ragamcenir

Yn narpariaeth yr ysgol bresennol, mae lle ar gyfer Cylch Meithrin a Chlwb Carco mewn hen adeilad dros dro. Cânt eu symud i leoliad gofal plant newydd fel rhan o ddatblygiad yr ysgol newydd. Rydym yn rhagweld y gallai'r datblygiad newydd hwn, a'r posibilrwydd o wneud gwaith datblygu pellach ar y safle mewn prosiectau yn y dyfodol gyda'r Cynnig Gofal Plant, gynyddu'r galw am ofal plant yn sylweddol. Mae'r broses o symud yr ysgol cyfrwng Cymraeg ymhellach i lawr coridor Islwyn hefyd yn debygol o gynyddu'r galw. Mae galw cynyddol ledled y fwrdeistref am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn sgil rheoliadau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae targed ymestynnol ar gyfer datblygu lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynnydd yn narpariaeth yr ysgol yn gofyn am gynnydd tebyg yng nghanran nifer y lleoedd ar gyfer gofal plant i ddiwallu anghenion teuluoedd sy'n gweithio i blant rhwng 0 a 12 oed. Mae galw cynyddol hefyd ymhlith rhieni am ofal plant yn ardal Rhisga (y cyfeirir ato yn Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2020).

Bydd y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ei hangen mewn dwy ystafell i ddechrau ar gyfer 20 o leoedd ym mhob ystafell yn ystod y bore a'r prynhawn. Bydd angen sicrhau bod swyddfa, cegin, toiled i'r staff a phedwar toiled i'r plant yn y datblygiad, yn ogystal â'r gallu i rannu'r ardal gyda larwm o weddill yr ysgol fel y gellir parhau i'w gynnal y tu allan i oriau ysgol. Mae gofyniad yn y rheoliadau a'r canllawiau gofal plant i ddarparu gwasanaeth o ansawdd i sicrhau bod digon o le yn yr awyr agored ar gyfer gweithgarwch corfforol ac y gellir cyflawni pob maes dysgu yn yr awyr agored.

Rydym yn rhagweld mai'r darparwyr trydydd sector presennol fydd yn gweithredu'r ddarpariaeth. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn cynnwys:

- Cylch Meithrin Cwm Gwyddon (grŵp chwarae ar gyfer plant rhwng dwy a thair oed) – sy'n cael ei gynnal gan bwyllgor rheoli sy'n elusen gofrestredig – 16 o leoedd (y bore'n unig)
- Clwb Meithrin Cwm Gwyddon (gofal cofleidiol ar gyfer plant rhwng tair a phedair oed sy'n mynychu'r Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol) – a gaiff ei redeg gan Fenter Iaith Caerffili, ac sy'n cynnig 48 o leoedd ac yn gweithredu yn y bore a'r prynhawn ers mis Medi 2018
- Clwb Carco Cwm Gwyddon (darpariaeth ar ôl ysgol i blant rhwng pedair ac 11 oed) – a gaiff ei redeg gan Fenter Iaith Caerffili ac sy'n cynnig 24 o leoedd

Byddem hefyd yn ceisio rhoi cymorth iddynt ddatblygu a chofrestru Clwb Gwyliau (darpariaeth yn ystod y gwyliau) a allai gynyddu'r galw drwy'r Cynnig Gofal Plant. Drwy ddatblygu'r ddarpariaeth hon gan ddefnyddio cyllid sy'n benodol i ofal plant, byddai'n sicrhau na allai'r ysgol ei defnyddio ac ni fyddai'n disodli'r gofal plant sydd eisoes yn bodoli. Drwy hyn, byddai'n rhoi sicrwydd yn yr hirdymor i'r lleoliadau allu datblygu eu busnes. Drwy rannu'r cyfleusterau

newydd, bydd yn sicrhau gwell effeithlonrwydd economaidd a mwy o gynaliadwyedd yn ariannol.

Rydym yn rhagweld y bydd 48 o leoedd ar gyfer gofal plant ar unrhyw adeg benodol, felly gallai edrych fel hyn:

- 24 o leoedd ar gyfer y grŵp chwarae yn y bore
- 72 o leoedd ar gyfer gofal cofleidiol (24 yn y bore a 48 yn y prynhawn) [posibilrwydd o rhwng 50 a 72 o leoedd ar gyfer gofal plant]
- 48 o leoedd ar ôl ysgol [posibilrwydd o 10 lle ar gyfer gofal plant]
- 48 o leoedd yn y clwb gwyliau [posibilrwydd o rhwng 20 a 30 o leoedd ar gyfer gofal plant]

Drwy ddatblygu ein darpariaeth gofal plant yn strategol ar safle'r ysgol, bydd yn creu proses ddidrafferth wrth bontio o'r ysgol / meithrinfa i'r uned gofal plant. Drwy ddylunio'r uned yn yr ysgol o'r dechrau, bydd hyn yn sicrhau'r lleoliad gorau ar gyfer symud plant o un ddarpariaeth i'r llall ac yn hwyluso'r broses i rieni wrth iddynt gasglu / gollwng eu plant. Bydd hyn hefyd yn gwella'r manteision o gydleoli ac yn sicrhau bod y broses bontio mor ddidrafferth â phosibl i'r plant a allai fod ar y safle ers iddynt fod yn ddwy oed.

Mae hyn yn rhan o flaenoriaeth allweddol yn rhaglen ysgolion Band B yr 21ain Ganrif ac yn sicrhau bod arbedion maint yn cael eu cynnwys yn y broses o'i dylunio a'i rhoi ar waith o'r dechrau, ac yn dangos ymrwymiad yr awdurdod lleol i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Gorchymyn – roedd y Pennaeth wedi gofyn i'r Clwb Meithrin gael ei weithredu yn ystod y bore a'r prynhawn o fis Medi 2018 ymlaen a symudodd y lleoliad o ardal chwarae â lle i 16 o blant i ystafell ddosbarth â lle i 24 o blant. Bydd yr ysgol newydd wedi'i lleoli ymhellach i lawr Cwm Islwyn ac mae'n debygol o ddenu plant o ardaloedd Crosskeys a Rhisga, lle y mae'r cyfraddau pontio o'r Cylchoedd Meithrin presennol wedi bod yn isel iawn yn draddodiadol oherwydd y pellter teithio i'r Ysgol Gynradd Gymraeg bresennol.

Lleoedd ychwanegol a grewyd ar ben y ddarpariaeth bresennol:

- Grŵp Chwarae (Cylch Meithrin) – wyth lle ychwanegol
- Gofal Cofleidiol (Clwb Meithrin) – 24 o leoedd ychwanegol
- Ar ôl Ysgol (Clwb Carco) – 24 o leoedd ychwanegol
- Clwb Gwyliau – 48 o leoedd ychwanegol

➤ Darpariaeth y Blynyddoedd Cynradd, Model 'Ysgol sy'n Tyfu' a Derbyniadau

Agorodd Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon ei drysau i ddisgyblion ym mis Tachwedd 1992, ac mae'r ysgol yn tyfu o un flwyddyn i'r llall. Er bod yr ysgol wedi'i sefydlu fel 'ysgol sy'n tyfu', dim ond lle i hyd at 168 o ddisgyblion sydd ar y safle presennol.

Nifer ar y gofrestr (2019-20 gwirioneddol):

Blwyddyn	2019-20
Cwm Gwyddon	207

Nifer a Ragamcenir ar gyfer Safle presennol yr Ysgol


Blwyddyn	Nifer ar y Gofrestr	Heb gynnwys y Feithrinfa
2020	234	205
2021	231	202
2022	231	200
2023	232	202
2024	233	203
2025	242	212

Mae model tyfu'r ysgol wedi'i nodi isod:

Blwyddyn Mynediad	2022	2023	2024	2025
Capasiti	315	350	385	420

Drwy gynyddu nifer y disgyblion a dderbynnir i nifer y gellir ei reoli, gellir ysgogi'r gofynion ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg heb ei gorddatblygu i ansefydlogi darpariaethau addysg sydd eisoes wedi'u sefydlu yn yr ardal. Rhagwelir y caiff 45 o ddisgyblion eu derbyn i'r ysgol newydd pan fydd yn agor, ac y bydd y nifer hwn yn cynyddu'n raddol i bum disgybl ychwanegol y flwyddyn nes iddi gyrraedd ei chapasiti llawn o 60 o ddisgyblion. Bydd hyn hefyd yn helpu i reoli'r llefydd gwag yn yr ardal. Drwy alluogi'r ysgol i dyfu'n flynyddol, bydd yn atal ysgolion eraill yn yr ardal rhag colli disgyblion o bosibl.

➤ Trefniadau'r Dalgylch

Dalgylchoedd yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg		
	1	Ysgol Y Lawnt
	2	Ysgol Bro Sannan
	3	Ysgol Penalltau
	4	Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed
	5	Ysgol Gymraeg Trelyn
	6	Ysgol Gymraeg Bro Allta
	7	Ysgol Gymraeg Cwm Derwen
	8	Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon
	9	Ysgol Ifor Bach
	10	Ysgol Gynradd Gymraeg y Castell
	11	Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili

Yr Ysgol Gynradd Gymunedol cyfrwng Cymraeg agosaf i'r safle presennol a safle arfaethedig Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon yw Ysgol Gymraeg Cwm Derwen:

Nifer y rhagamcenir dros y chwe mlynedd nesaf			
Blwyddyn	Ysgol Gymraeg Cwm Derwen		
	Nifer ar y Gofrestr	Heb gynnwys y Feithrinfa	Capasiti
2020	217	190	210
2021	218	192	210
2022	221	195	210
2023	219	193	210
2024	219	192	210
2025	222	196	210

Mae'r Cyngor wedi derbyn cyllid o dan y Grant Cyfrwng Cymraeg i ymestyn y capasiti yn Ysgol Gymraeg Cwm Derwen i allu ateb y galw sy'n cynyddu yn y dalgylch.

Mae'r dair Ysgol Gynradd Gymunedol Cyfrwng Saesneg ganlynol yn agos i'r safle presennol yn ogystal â safle newydd arfaethedig Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon.

Nifer y rhagamcenir dros y chwe mlynedd nesaf									
Blwyddyn	Ysgol Gynradd Abercarn			Ysgol Gynradd Cwmcarn			Ysgol Gynradd Waunfawr		
	Nifer ar y Gofrestr	Heb gynnwys y Feithrinfa	Capasiti	Nifer ar y Gofrestr	Heb gynnwys y Feithrinfa	Capasiti	Nifer ar y Gofrestr	Heb gynnwys y Feithrinfa	Capasiti
2020	256	224	244	249	220	261	187	162	178
2021	252	221	244	242	212	261	187	163	178
2022	249	219	244	241	208	261	189	164	178
2023	249	218	244	244	210	261	195	170	178
2024	247	216	244	256	223	261	194	169	178
2025	243	212	244	260	227	261	198	173	178

➤ Amharu ar ddisgyblion

Nod y cynnig yw adeiladu cyfleuster ysgol newydd mewn lleoliad gwahanol i'r ysgol bresennol. Yn sgil hynny, ni fydd y gwaith adeiladu yn amharu ar ddisgyblion ar safle Cwm Gwyddon. Yn ogystal â hyn, ni fydd unrhyw broblemau'n ymwneud â thrafnidiaeth na mynediad gan fod y gwaith adeiladu'n cael ei gynnal oddi ar y safle.

➤ Darpariaeth Uwchradd

Mae'n amlwg bod y Gymraeg yn bwysig iawn i fywyd yng Nghymru. Mae cynnal a chynyddu'r dewis o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn her fawr i'r Cyngor. Mae'n anochel y bydd newidiadau i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn cael effaith ar addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Po fwyaf o ddisgyblion sy'n mwynhau addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, y mwyaf tebygol ydynt i fynychu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg a derbyn y cyfleoedd gorau i fyw eu bywydau yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg.

O fewn y fwrdeistref, fel y nodir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ac mae'r cyfraddau dilyniant yn parhau i fod yn uchel. Wrth ystyried yr effaith y gallai'r cynnig hwn ei chael, caiff y safle ei gynllunio a'i strwythuro'n strategol er mwyn gwneud y defnydd gorau o le a rhoi'r posibilrwydd o allu hwyluso darpariaeth Uwchradd yn y dyfodol os bydd angen cynyddu'r capasiti yn yr ardal honno.



Beth fydd effaith y cynnig?

➤ Arweinyddiaeth, Ansawdd a Safonau Addysg

Wrth roi'r prosiect ar waith, bydd yr ysgol yn parhau i dderbyn cyngor a chymorth gan yr awdurdod lleol, y gwasanaeth gwella ysgolion ac unrhyw randdeiliaid perthnasol er mwyn helpu i sicrhau bod yr ysgol yn defnyddio dulliau arwain effeithiol ac yn darparu profiadau addysgu a dysgu o ansawdd uchel.

Estyn a'r Awdurdod Lleol sy'n monitro ansawdd a safonau ysgolion yng Nghaerffili. Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n un o gyrrff y Goron a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Caiff canlyniad yr arolygiad diweddaraf o Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon ei nodi isod:

Crynodeb o Feirniadaeth ESTYN: Ysgol Cwm Gwyddon – arolygwyd ym mis Mawrth 2020				
MA1 – Safonau	MA2 – Lles ac agweddau at ddysgu	MA3 – Addysgu a phrofiadau dysgu	MA4 – Gofal, cymorth ac arweiniad	MA5 – Arweinyddiaeth a rheolaeth
Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol

Cynhaliodd Estyn arolygiad o'r ysgol yn 2020, felly mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd yn adlewyrchu'r fframwaith arolygu diwygiedig a gyflwynwyd ym mis Medi 2017. Fel y nodir isod, mae'r pum maes arolygu'n dangos bod Ysgol Cwm Gwyddon yn lleoliad effeithiol iawn, gyda dulliau arwain cadarn ac yn darparu profiadau dysgu a darpariaeth ragorol i bob disgybl.

Mae'r rhinweddau amlwg yn yr adroddiad, sy'n gysylltiedig â'r meysydd arolygu allweddol, wedi'u nodi isod:

1. Safonau:

- Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cryf iawn ac mae nifer yn gwneud cynnydd uwchlaw'r disgwyliadau wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).
- Mae bron pob disgybl yn datblygu fel dysgwyr cydwybodol a hyderus sydd â medrau gweithio annibynnol aeddfed.
- Mae medrau siarad a gwrando bron pob disgybl o ansawdd uchel iawn.
- Mae bron pob disgybl yn cyfathrebu'n aeddfed iawn yn y ddwy iaith, gan fynegi eu syniadau, barnau a'u teimladau yn effeithiol a chlir mewn gwaith pâr, grŵp a dosbarth cyfan.
- Mae bron pob un disgybl yn ysgrifennu darnau estynedig diddorol o safon uchel yn y ddwy iaith

2. Lles ac agweddau at ddysgu:

- Mae ymddygiad bron bob un o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn rhagorol.
- Mae bron pob un yn hynod gydwybodol, yn mynegi eu barn yn effeithiol ac yn cymryd eu dyletswyddau arwain o ddifri fel aelodau o'r amryw gynghorau.
- Mae gan bron bob un disgybl agwedd ardderchog tuag at eu dysgu.
- Mae bron pob un yn frwdfrydig mewn gwersi ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig wrth gwblhau eu gweithgareddau.
- Mae bron pob disgybl yn dangos balchder amlwg o'u Cymreictod ac yn arddangos agweddau cadarnhaol iawn at y Gymraeg.

3. Addysgu a phrofiadau dysgu:

- Mae'r athrawon yn darparu cwricwlwm symbylus a dychmygus sy'n datblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus iawn ar draws y meysydd dysgu.
- Mae bron pob dysgwr, yn cynnwys y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd da neu well yn eu dysgu.
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo Cymreictod yn hynod effeithiol drwy ystod eang o weithgareddau cyfoethog i ddisgyblion ddysgu am hanes a ddiwylliant Cymru ac i ddefnyddio'r Gymraeg ar bob cyfle.

4. Gofal, cymorth ac arweiniad

- Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir gan yr ysgol yn arbennig ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion.
- Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf iawn a'i chymuned a manteisia'n llawn ar ei chefnogaeth.
- Mae'r cyfleoedd a gaiff y disgyblion i ddatblygu eu medrau creadigol a chelfyddydau mynegiannol yn nodwedd ragorol.

5. Arweinyddiaeth:

- Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth arloesol, gref a gofalgar.
- Mae'r arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n canolbwyntio'n gryf ar gefnogi lles disgyblion a datblygu dysgwyr uchelgeisiol a hyderus mewn awyrgylch Cymreig. Mae'r weledigaeth hon yn cael ei rhannu'n llwyddiannus iawn gyda'r holl rhanddeiliad.
- Mae gan yr ysgol bartneriaethau addysgeg arbennig gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg de ddwyrain Cymru.

At ddibenion cymharol, mae trosolwg o ganlyniadau Estyn ar gyfer yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a'r dair ysgol gynradd cyfrwng Saesneg agosaf wedi'i gynnwys:

Enw'r ysgol	Dyddiad yr arolygiad	Arolygiad cyn/ar ôl y fframwaith diwygiedig	Beirniadaeth
Ysgol Gymraeg Cwm Derwen	Mehefin 2015	Fframwaith cyn iddo gael ei ddiwygio	Perfformiad presennol yr ysgol: da Rhagolygon ar gyfer gwella: da Safonau: da Llesiant: digonol Profiadau dysgu: da Addysgu: da Gofal, cymorth ac arweiniad: da Amgylchedd dysgu: da Arweinyddiaeth: da Gwella ansawdd: da Gweithio mewn partneriaeth: da Rheoli adnoddau: da
Ysgol Gynradd Abercarn	Tachwedd 2017	Fframwaith diwygiedig	Safonau: da Lles ac agweddau at ddysgu: da Addysgu: da Gofal, cymorth ac arweiniad: da Arweinyddiaeth: da
Ysgol Gynradd Cwmcarn	Mai 2017	Fframwaith cyn iddo gael ei ddiwygio	Perfformiad presennol yr ysgol: digonol Rhagolygon ar gyfer gwella: da Safonau: digonol Llesiant: digonol Profiadau dysgu: da Addysgu: da Gofal, cymorth ac arweiniad: da Amgylchedd dysgu: da Arweinyddiaeth: da Gwella ansawdd: da Gweithio mewn partneriaeth: da Rheoli adnoddau: digonol

Ysgol Gynradd Waunfawr	Mawrth 2017	Fframwaith cyn iddo gael ei ddiwygio	Perfformiad presennol yr ysgol: da Rhagolygon ar gyfer gwella: da Safonau: da Llesiant: da Profiadau dysgu: da Addysgu: da Gofal, cymorth ac arweiniad: da Amgylchedd dysgu: da Arweinyddiaeth: da Gwella ansawdd: da Gweithio mewn partneriaeth: da Rheoli adnoddau: da
------------------------	-------------	--------------------------------------	---

Caiff ystyriaeth ei rhoi i'r effaith y gallai'r cynnig ei gael ar ansawdd a safonau ar y cyd â Fframwaith Arolygu Estyn. Gan ystyried canfyddiadau'r adroddiad a gyhoeddwyd, ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith andwyol ar unrhyw un o'r meysydd arolygu. Bydd y wybodaeth a nodir yn y cynnig yn dangos sut y gall yr ysgol barhau i ddatblygu ac adeiladu ar ei hymarfer rhagorol presennol. Drwy gydol y cyfnod pontio, bydd yr ysgol yn parhau i dderbyn cymorth a heriau priodol gan yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth gwella ysgolion er mwyn sicrhau bod y safonau, llesiant ac agweddau ar ddysgu, addysgu a dysgu, gofal, arweiniad a chymorth a'r arweinyddiaeth yn parhau i fod yn effeithiol.

➤ Trefniadau Llywodraethu a Chategoreiddio'r Ysgol

Nid oes unrhyw newidiadau i drefniadau llywodraethu Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon wedi'u rhagweld yn sgil y cynnig hwn. Bydd y corff llywodraethu yn parhau ar ei ffurf bresennol.

Mae'r System Genedlaethol ar gyfer Categorioidio Ysgolion yn rhoi darlun defnyddiol er mwyn nodi'r ysgolion sydd angen cymorth ac arweiniad fwyaf i wella. Datblygwyd y system ar y cyd rhwng y consortia addysg rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Yn hanesyddol, mae'r ysgol wedi'i nodi fel ysgol 'werdd', felly nid oes angen llawer o gymorth arni i wella ei hun.

Dylid nodi bod pandemig presennol Covid-19 wedi oedi'r broses genedlaethol ar gyfer categorioidio o fis Medi 2020. Fodd bynnag, mae cymorth ar gael i'r ysgolion sydd angen ymyrraeth ac arweiniad ychwanegol.

➤ Materion yn ymwneud â'r Staff

Mae gan staff yr ysgol rôl bwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn dysgu mewn amgylchedd dysgu diogel a chefnogol. Gallant feithrin cydberthnasau cadarnhaol, sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth gyda disgyblion ac yn gwella hinsawdd yr ysgol drwy annog rhieni a theuluoedd i fod yn rhan o addysg.

Drwy feithrin cydberthnasau cadarn, gall y staff ddylanwadu ar bron pob agwedd ar fywydau eu disgyblion, drwy addysgu gwersi bywyd pwysig iddynt a fydd yn eu galluogi i lwyddo y tu hwnt i

addysg hefyd. Nid yw bob amser yn hawdd newid bywyd disgybl, sef pam bod angen athro rhagorol i wneud hynny.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd cadw profiadau a chymorth aelodau presennol o staff yr ysgol yn helpu'r disgyblion yn ystod y cyfnod pontio. Ni fydd y cynnig yn ystyried gwneud unrhyw doriadau yn y trefniadau presennol. Yn hytrach, mae'r cynnig yn cefnogi'r posibilrwydd o ehangu'r ddarpariaeth, yr amrywiaeth o wybodaeth sydd ar gael i ddisgyblion ac annog y gweithlu i ddatblygu drwy rannu arfer gorau.

➤ **Materion Ariannol**

Mae cyllid eisoes wedi cael ei neilltuo ar gyfer cyfran y Cyngor o gostau cyfalaf y prosiect. Caiff y costau rheolaidd (refeniw) eu hystyried fel rhan o'r broses o gynllunio'r gyllideb wrth symud ymlaen. Ystyrir pob cost ychwanegol neu arbedion yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

Mae Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili eisoes wedi cytuno i neilltuo cronfa wrth gefn fel y gall y Cyngor gyfrannu at y costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â chynigion Band B yr 21ain Ganrif yr Awdurdod. Gwerth y gronfa wrth gefn hon ar yw £6.975m ar hyn o bryd. Mae'r Cabinet eisoes wedi cytuno i neilltuo £5.766m o'r gronfa wrth gefn hon i gefnogi dau Brosiect Band B, ac mae cynnig Cwm Gwyddon yn un ohonynt (Cabinet 10 Gorffennaf 2019 / Cabinet 22 Gorffennaf 2020)

Nid oes unrhyw dderbyniadau cyfalaf nac arbedion o ran costau rheolaidd wedi cael eu nodi ar hyn o bryd i ddatblygu'r Prosiectau hyn. Mae cyllid eisoes wedi cael ei nodi a'i glustnodi ar gyfer cyfran y Cyngor o gostau cyfalaf y Prosiectau.

Er bod cynnydd yn y gost gychwynnol wedi cael ei nodi fel rhan o'r gwaith o ehangu'r ddarpariaeth, rhagwelir y bydd dull strategol gwell o reoli ystad yr ysgol a llai o waith cynnal a chadw sydd wedi'i ôl-gronni yn cefnogi agenda ysgolion cynaliadwy. Yn ogystal â hyn, caiff safle presennol yr ysgol ei ddatgan yn safle diangen yn ôl gofynion yr Awdurdod Addysg Lleol a gallai greu Derbyniad Cyfalaf a fyddai'n helpu i gefnogi cynlluniau strategol yn y dyfodol.

➤ **Effaith ar y Ddarpariaeth Gymraeg**

Mae rhaglen y Prif Weinidog ar gyfer Llywodraeth 2016-2020, Symud Cymru Ymlaen, yn gweithio tuag at gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, yn darparu cyfres o safonau ac yn rhoi dyletswydd statudol ar y Cyngor i asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Mae un o'r safonau allweddol yn cynnwys gofyniad i ddatblygu strategaeth Gymraeg bum mlynedd, gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'n galluogi i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol.

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysgu yn nodi ymrwymiad Caerffili i hyrwyddo'r Gymraeg a darparu cyfleusterau addysgol deniadol ac o ansawdd. Mae'r Cynllun yn ceisio ysgogi'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg, sydd, fel y gwyddom, yn fwy cynaliadwy i deuluoedd os bydd y ddarpariaeth addysg yn cael ei hehangu yn unol â'r gofal plant sydd ar gael.

Un o amcanion y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yw;

“I ganfod cyllid ym Mand B o raglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, ar gyfer datblygu digon o leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle maent yn dod o dan bwysau, yn enwedig ardal Bedwas Tretomos Machen, ac ardal dwyrain Islwyn.”

Mae cynnig Cwm Gwyddon yn berthnasol i ardal dwyrain Islwyn, sydd wedi'i nodi fel ardal i'w datblygu. Er mwyn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n hollbwysig gwella'r ddarpariaeth gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â grwpiau neu sefydliadau yn y gymuned er mwyn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar yn gymdeithasol neu yn y gweithle ar ôl i addysg ffurfiol ddod i ben. Heb y defnydd parhaus o'r Gymraeg, mae perygl y gallai pobl ifanc o gartrefi Saesneg eu hiaith golli hyder yn eu sgiliau Cymraeg.

Byddwn yn ceisio ysgogi a sicrhau darpariaeth leol, hygyrch a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y gymuned er mwyn ateb y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae adran 105(7) o Ddeddf Addysg 2002 yn nodi bod “ysgol yn un Gymraeg os yw mwy na hanner y pynciau a ganlyn yn cael eu haddysgu (yn llawn neu'n rhannol) drwy gyfrwng y Gymraeg - (a) Addysg Grefyddol, a (b) y pynciau, heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n bynciau sylfaen ar gyfer y disgyblion yn yr ysgol”

➤ Trefniadau Teithio gan Ddysgwyr


Mae dyletswydd statudol ar bob Cyngor o dan Adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg. Mae 11 o Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ledled y Fwrdeistref a 10 Ysgol Cyfrwng Saesneg yn nalgylch Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon.

Bydd y cynnig yn ceisio creu cyfleuster newydd a gwell drwy adleoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon i hen safle Ysgol Uwchradd Cwmcarn, sydd lai na milltir o safle presennol yr ysgol.

Rhagwelir na fydd y trefniadau teithio gwahanol yn sgil y cynnig yn cael fawr ddim effaith ar ddisgyblion, er y cydnabyddir y bydd rhai ohonynt yn byw'n agosach i safle newydd yr ysgol ac eraill, i'r gwrthwyneb, yn eu cael eu hunain yn byw ymhellach, ond nad yw'r ddau safle ymhell iawn oddi wrth ei gilydd.

Mae Caerffili yn bodloni gofynion Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 drwy ddarparu trafnidiaeth i ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion oedran ysgol statudol yn unol â'n polisi trafnidiaeth unigol. Mae polisi trafnidiaeth Caerffili yn fwy hael na'r gofyniad deddfwriaethol, gan ei fod yn darparu trafnidiaeth i'r ysgol 'berthnasol' (h.y. yn y dalgylch neu'r ysgol agosaf) ar gyfer pellter dros 1.5 milltir i ysgolion cynradd a dwy filltir i ysgolion uwchradd.

Mae'r tabl isod yn dangos yr ysgolion agosaf eraill:

Ysgol Arall	Agosaf	Cyfrwng	Cyflwr	Pellter Teithio	
Ysgol Gymraeg Cwm Derwen, NP12 0JL	Cymraeg	C+	Dros bum milltir		
Ysgol Gynradd Abercarn, NP11 5LH	Saesneg	B+	1.8 milltir		
Ysgol Gynradd Cwmcarn, NP11 7LZ	Saesneg	C+	0.7 milltir		
Ysgol Gynradd Waunfawr, NP11 7PG	Saesneg	B	1.5 milltir		

➤ Cydraddoldebau

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod bod gan bobl anghenion, gofynion a nodau gwahanol, a byddwn yn gweithio yn erbyn pob math o wahaniaethu drwy hyrwyddo cysylltiadau da a chyd-barch o fewn ein cymunedau a rhyngddynt.

Mae asesiadau o effaith yn ein helpu i ddangos sut y mae'r cyngor yn cydnabod ei ddyletswydd i roi ystyriaeth i gydraddoldeb o dan Deddf Cydraddoldeb 2010. Maent yn ffordd o sicrhau bod y polisiâu, yr arferion, y prosiectau a'r gweithgareddau sy'n llywio ein gwaith yn rhoi mynediad cyfartal i bawb i'n holl wasanaethau.

Mae asesiadau o effaith yn canolbwyntio ar p'un a yw'r newidiadau i'r ffordd rydym yn gwneud pethau (megis arferion gwaith neu'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau) yn debygol o gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y bobl rydym yn eu gwasanaethu neu'r rheini sy'n darparu ein gwasanaethau. Maent yn ein helpu i gynllunio i leihau neu gael gwared ar effaith negyddol – er enghraifft drwy wneud newidiadau rhesymol i'r ffordd y mae grŵp penodol yn derbyn gwasanaeth (er enghraifft drwy ddarparu gwybodaeth mewn ffordd wahanol neu osod ramp mewn adeilad ac ati).

Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg wedi'i gynnal. Mae'r ddogfen hon ar gael fel rhan o'r pecyn ymgynghori ar y wefan.

Yn ogystal â hyn, yn unol ag argymhellion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gynnal (fel y dangosir isod) :

Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 <i>Rhowch wybodaeth am y canlynol ...</i>	Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned
• Cyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol	94.94 yn Ionawr 2020

Cyfran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol	5.06 yn Ionawr 2020
Unrhyw gyfleusterau eraill yn yr ysgol, e.e. clwb ieuenctid/grŵp chwarae	Mae Cylch Meithrin, Clwb Meithrin a Chlwb Carco yn yr ysgol ar hyn o bryd
Cyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu, e.e. clybiau ar ôl ysgol, llyfrgell gymunedol	Mae'r ysgol yn cefnogi llond llaw o grwpiau cymunedol ar hyn o bryd gan gynnwys dosbarthiadau Cymraeg, sesiynau Mam a'i Phlentyn a dosbarth TGCh
Os caiff adeiladau/ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau eu darparu gan ysgol, ble byddant yn cael eu darparu petai'r ysgol yn cau;	Byddai'r safle newydd yn ystyried parhau i gefnogi'r gweithgareddau presennol ar safle Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon gan adeiladu cyfleuster mwy o fewn milltir i'r safle presennol.
A fyddai modd datblygu cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol gyfagos neu yn y gymuned ehangach petai'r ysgol yn cael ei chau	Nod y cynnig yw adleoli'r ysgol. Er nad yw'r cynnig yn ymwneud â chau'r ysgol yn uniongyrchol, cydnabyddir na fyddai'r grwpiau sy'n defnyddio'r safle ar hyn o bryd yn awyddus i deithio. Mewn achosion o'r fath, gall y gymuned leol ddefnyddio Llyfrgell Abercarn a'r Neuadd Bentref leol fel lleoliadau amgen.
Y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol amgen	Mae'r cynnig presennol yn golygu mai Ysgol Gymraeg Cwm Derwen yw'r Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg agosaf i'r ardal. Y dair Ysgol Cyfrwng Saesneg agosaf yw Ysgol Gynradd Cwmcarn, Ysgol Gynradd Abercarn ac Ysgol Gynradd Waunfawr. Gall yr ysgolion hyn gynnal grwpiau/clybiau ar ôl ysgol er nad ydynt wedi'u hadeiladu'n benodol at ddefnydd cymunedol a bydd angen negodi â'r Pennaeth ar y safle.
Pa mor bell fydd ysgol amgen o'r un categori iaith a faint o amser fyddai'n ei gymryd i gyrraedd yno	Yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg agosaf yn yr awdurdod yw Ysgol Cwm Derwen. Yn seiliedig ar y wybodaeth o Googlemaps, mae Ysgol Cwm Derwen bum milltir i ffwrdd o Ysgol Cwm Gwyddon, sy'n cymryd 10 munud mewn car neu 40 munud ar fws, yn seiliedig ar y llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael.
Sut y gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion â'r ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig (e.e. sut y caiff disgyblion (a disgyblion difreintiedig yn benodol) eu helpu i gymryd rhan mewn	Y rhieni sy'n gyfrifol am weithgareddau y tu allan i oriau gan eu bod yn cael eu hystyried yn oriau anstatudol, ac nid oes gan y Cyngor unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i'w cefnogi. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod Dîm

gweithgareddau ar ôl ysgol)?	leuenctid rhagweithiol a fyddai'n gallu rhoi rhagor o gyngor i deuluoedd sydd angen cymorth ychwanegol.
• Effaith ar iechyd a lles	Mae'r Cyngor yn cefnogi menter Teithio Egniïol drwy ddarparu llwybrau diogel i safle'r ysgol newydd er mwyn annog disgyblion i gerdded/seiclo i'r ysgol. Ar gyfer y disgyblion llai abl, bydd y cyfleuster newydd hefyd yn cynnwys mynediad ac ardaloedd mewnol gwell i'w hannog i fod yn annibynnol a chadw'n heini ac yn egniïol.
• Unrhyw oblygiadau ehangach y bydd y newidiadau yn eu cael ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus	Rhagwelir na fydd y safle newydd yn cael llawer o effaith gan ei fod o fewn milltir i'r safle presennol, a chaiff llwybrau trafnidiaeth cyhoeddus eu defnyddio er enghraifft bws 151.
• Materion diogelwch yn y gymuned ehangach	Caiff y materion hyn eu hystyried fel rhan o broses y Cais Cynllunio. Cyfeirir at ragor o wybodaeth am sut i gael gfael ar y wybodaeth hon yn gynharach yn y ddogfen hon

➤ Cyfleusterau Arbenigol / Anghenion Dysgu Ychwanegol

Un o brif gyfrifoldebau'r Cyngor yw sicrhau bod digon o leoedd i ddisgyblion yn y lleoliadau mwyaf priodol a sicrhau ei fod yn ymwybodol o newidiadau demograffig (h.y. cynnydd a gostyngiadau ym mhoblogaeth disgyblion). Mae gofyn i'r Cyngor hefyd nodi strategaeth ym mhob rhan o'r awdurdod i greu darpariaeth gymunedol mewn ysgolion, yn ogystal â darpariaeth arbenigol i ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Ychwanegol neu anableddau. Caiff yr ysgol newydd ei hadeiladu yn unol â fframwaith Bwletin Adeiladu 99. Bydd y meini prawf hanfodol yn ceisio sicrhau bod y cyfleusterau'n briodol ac y gellir eu defnyddio mewn amgylchiadau presennol ac yn y dyfodol.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Addysgol Ychwanegol yn rheolaidd yn unol â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys. Mae'r wybodaeth yn dangos bod nifer y plant ag anghenion sy'n gofyn am ddarpariaeth arbenigol yn cynyddu. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle cyfartal a chydabod hawliau pob plentyn a pherson ifanc i dderbyn addysg o ansawdd uchel. Mae'r Cyngor hefyd yn ymrwymedig i'r egwyddor o gadw plant mor agos i'w cartrefi â phosibl. Felly, mae'n hollbwysig sicrhau bod y trefniadau'n addas ar gyfer y dyfodol yn y sir.

Bydd y datblygiadau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ddull y Cyngor o ddiwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol. Prif ffocws y Cyngor yw sicrhau bod anghenion plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ym mhob ysgol yn y fwrdeistref yn cael eu diwallu gyda darpariaethau priodol ar waith mewn lleoliadau prif ffrwd neu leoliadau mwy arbenigol. Mae'r dull yn cynnwys datblygu

gweithlu sy'n meddu ar y sgiliau priodol, darparu cyfleoedd hyfforddiant i ddiwallu anghenion a hyrwyddo dulliau o gydweithio ag asiantaethau eraill.

➤ **Effaith ar y Gymuned a Budd i'r Gymuned**

Effaith ar y Gymuned

'Mae gan y Cwricwlwm Cymreig le canolog yn rhaglen waith yr ysgol a chaiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg ei hyrwyddo'n effeithiol iawn. Mae'r amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir yn helpu disgyblion i ddatblygu nifer o fedrau personol a chymdeithasol allweddol yn dda.' – Estyn 2013. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn nodi bod sawl un o'r gweithgareddau allgyrsiol yn cael eu cynnal oddi ar y safle, gan effeithio ar gyllideb yr ysgol yn sgil y costau rhentu a theithio. Er enghraifft, gan fod y neuadd mor fach, mae'n golygu bod angen cynnal cyngherddau'r ysgol yn y Neuadd Goffa leol yn aml ac am nad oes cyfleusterau arbenigol ar gyfer gweithgareddau chwaraeon, mae'r ysgol yn anfon y plant ar fws i leoliad cyfagos ar gyfer y diwrnod mabolgampau.

Er bod yr ysgol bresennol yn annog y gymuned i'w defnyddio lle y bo modd, mae'r mynediad a'r cyfleusterau a ddefnyddir ar gyfer llond llaw o ddosbarthiadau Cymraeg, sesiynau Mam a'i Phlentyn a dosbarth TGCh yn cyfyngu ar y defnydd.

Bydd y prosiect arfaethedig yn ystyried y dyhead i annog a hwyluso'r gymuned i ddefnyddio'r ased. I'r perwyl hwn, bydd y broses ddylunio yn ceisio cynnwys mesurau i allu creu 'parthau' diogel mewn rhannau o adeilad yr ysgol newydd, gan gynnwys y neuadd ac ardal ystafell ddosbarth amlbwrpas y gellir addasu eu defnydd. Caiff y posibilrwydd o alluogi'r gymuned i ddefnyddio'r cyfleusterau chwaraeon ar adegau addas hefyd ei ystyried yn unol ag amserlen y cwricwlwm. Bydd hefyd yn cryfhau ac yn diogelu'r broses o hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant a Threftadaeth Cymru yn y Gymuned.

Fel y nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, rhagwelir y bydd llawer o'r gweithgareddau y mae'r ysgol yn eu cefnogi yn y gymuned ar hyn o bryd yn parhau yn y lleoliad newydd. Ar gyfer y grwpiau na allant deithio'r pellter ychwanegol, bydd y Cyngor yn darparu cyfleusterau yn llyfrgell leol y gymuned neu'n ystyried cefnogi lleoliadau amgen lle y bo'n briodol i wneud iawn am y defnydd a gaiff ei golli yn yr ysgol.

Budd i'r Gymuned

Mae'r prosiectau yn sicrhau bod Budd i'r Gymuned yn Ofyniad Craidd, a chaiff ei sgorio fel rhan o'r gwerthusiad Ansawdd. Mae'n nodi sawl targed yn seiliedig ar ddulliau recriwtio a hyfforddi lleol wedi'u targedu, cadwyni cyflenwi, mentrau cymunedol ac addysgol a materion amgylcheddol megis lleihau gwastraff a'r defnydd o ynni. Mae diogelu cynefinoedd, bioamrywiaeth a lleihau llygredd yn fater o drefn drwy gydol cyfnod y contract ac mae'r arolygon perthnasol eisoes wedi'u cynnal a'u cynnwys yn y dogfennau caffael.



Beth yw manteision y cynnig?

➤ Manteision

Mae prif fanteision y cynnig yn cynnwys:

- Darparu ysgol 'newydd sbon' i 420 o ddisgyblion yn ogystal â meithrinfa, Canolfan Adnoddau Arbennig a darpariaeth Gofal Plant
- Adleoli ysgol o safle sydd wedi bod yno ers 60 mlynedd â chyfyngiadau sylweddol
- Darparu cyfleuster ynni effeithlon
- Ystafelloedd dosbarth o'r radd flaenaf
- Cyfleuster arlwy newydd a neuadd hyblyg
- Cyfleuster newydd ar gyfer gweithgareddau yn yr awyr agored
- Cyfleuster blaenllaw ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghaerffili
- Y defnydd gorau o le drwy ailgynllunio'r safle
- Amgylchedd ysgogol i gyflawni deilliannau o ansawdd uchel i ddysgwyr
- Defnydd Cymunedol

Bydd yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn darparu cyfleuster cynradd sy'n addas at y diben yn cynnwys Gofal Plant, Canolfan Adnoddau Arbennig, Meithrinfa, ardal i blant sy'n codi'n dair oed, ystafelloedd dosbarth ar gyfer y brif ysgol, prif neuadd, ardal technoleg bwyd, llyfrgell ac ardal ar gyfer Technoleg Gwybodaeth. Bydd hefyd yn cynnig ardaloedd chwarae allanol a mynediad i gae chwarae glaswellt. Bydd yr adeilad newydd yn darparu adeiladau ac ystafelloedd ac yn sicrhau mynediad cyfartal drwy hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu addysg gynhwysol drwy'r cwricwlwm llawn i ddisgyblion mewn amgylchedd dysgu cyfoes, diogel ac ysbrydoledig.

➤ Anfanteision

Mae prif anfanteision y cynllun yn cynnwys:

- Gall yr amseroedd teithio newid ar gyfer lleiafrif o ddisgyblion yn dibynnu ar ba mor agos y maent yn byw i leoliad yr ysgol newydd
- Mae angen rhoi cymorth i'r gymuned ddefnyddio'r safle newydd a sicrhau bod darpariaeth amgen ar gael i grwpiau sy'n defnyddio'r safle presennol, a bydd y safle newydd yn cynnig cyfleusterau gwell
- Symud ysgol hirsefydledig yn y gymuned i ardal wahanol, er y bydd lai na milltir o safle presennol yr ysgol
- Bydd cyfnod pontio ar gyfer y disgyblion a bydd angen ystyried y cymorth priodol sydd angen arnynt i 'ymgartrefu'
- Bydd angen datgomisiynu a chael gwared ar y darn o dir presennol yn unol â'r canllawiau priodol
- Rhagwelir na fydd y cynllun yn cael llawer o effaith ar ysgolion eraill yn sgil proses raddol a reolir o gynyddu capasiti

➤ Risgiau

Caiff y risgiau eu rheoli'n rhagweithiol yn unol â'n gweithdrefnau rheoli risgiau. Mae'r rhaglen yn cynnwys trefniadau wrth gefn ar gyfer rheoli risgiau i gwmpasu digwyddiadau nas rhagwelwyd, gan ystyried yr asesiadau o duedd optimistaeth.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â chaffael gwaith adeiladu. Mae'r prif risgiau o roi'r cynllun ar waith yn cynnwys:

Risg	Ffactor Lliniarol
Y broses gynllunio (mae hyn ar wahân i'r ddogfen ymgynghori)	Caiff y broses gynllunio ei rheoli gan y Gwasanaethau Eiddo yn unol â gofynion deddfwriaethol
Effaith unrhyw amodau cynllunio ar gostau	Caiff proses dendro lawn ei chynnal
Sicrhau bod digon o gyllid i gwblhau'r gwaith gan gynnwys costau annormal	Bydd cynlluniau wrth gefn yn rhan o'r broses dendro
Sicrhau bod digon o adnoddau/ contractwyr	Caiff Fframwaith Adeiladu Cydweithredol De Ddwyrain a Chanolbarth Cymru (SEWSCAP) ei ddefnyddio
Cyflwyno risgiau i gostau yn sgil dynamig cyflenwadau/ galw rhanbarthol	Cânt eu rheoli drwy gynlluniau wrth gefn
Datblygu dyluniadau	Caiff gwasanaeth pensaernïaeth mewnol ei ddefnyddio
Tywydd garw	Caiff ei ystyried fel rhan o amserlenni rheoli'r prosiect
Sicrhau bod digon o wasanaethau cyfleustodau	Caiff ei ystyried fel rhan o amserlenni rheoli'r prosiect
Llywodraethu Prosiectau a gwneud penderfyniadau	Caiff Bwrdd Llawn ar gyfer y Prosiect ei sefydlu
Cyflawni buddiannau (diwallu anghenion y defnyddwyr terfynol)	Cânt eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori a chaffael

➤ Opsiynau gwahanol sydd wedi'u diystyru

Cafodd yr opsiynau canlynol eu hystyried a'u sgorio: -

Opsiwn	Disgrifiad
Opsiwn 1	Gwneud dim
Opsiwn 2	Adnewyddu'r ysgol bresennol sydd eisoes wedi cyrraedd ei disgwyliad oes o 60 mlynedd
Opsiwn 3	Adeiladu ysgol yr un maint ar y safle presennol
Opsiwn 4	Adeiladu ysgol newydd, yr un maint ar safle newydd sy'n cynnwys gofal plant
Opsiwn 5	Adeiladu ysgol newydd, fwy ar safle newydd sy'n cynnwys meithrinfa, gofal plant a Chanolfan Adnoddau Arbennig

Cafodd pob opsiwn ei drafod gan ddetholiad o Swyddogion Cyngor i ddechrau o sawl adran a rhoddwyd sgôr ar gyfer pob opsiwn yn erbyn y Ffactorau Llwyddiant Hanfodol canlynol:

- Adeiladu ysgol sy'n cydymffurfio â'r bwletin
- Amgylchedd carbon isel, ynni isel ac sy'n ecogyfeillgar
- Adeilad sy'n addas i'r amgylchedd lleol ac sy'n gymwys i'r awdurdod cynllunio
- Cyfleuster addysg sy'n addas i randdeiliaid
- Cwblhau'r prosiect o fewn y gyllideb a'r terfynau amser gofynnol
- Sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cytuno ar y cynnig

Yn ogystal â'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol, bu'r Swyddogion hefyd yn ystyried yr Addasrwydd Strategol, Addysgol, Ariannol, Amgylcheddol ac o ran Mynediad fel y prif Amcanion Buddsoddi.

Cafodd yr Amcanion Buddsoddi eu pwysoli yn seiliedig ar y meysydd presennol o flaenoriaeth i'r Cyngor. Rhoddwyd sgôr o 5 (Uchel) i 1 (Isel) i'r meysydd Buddsoddi â Blaenoriaeth.

Yn dilyn hynny, roedd pob opsiwn yn derbyn sgôr yn erbyn y meini prawf a nodir uchod

5 rhagori ar y meini prawf

4 bodloni'r meini prawf

3 nid yw'n bodloni/neu ddim yn bodloni'r meini prawf

2 yn bodloni'r meini prawf yn rhannol

1 ddim yn bodloni'r meini prawf

Yn dilyn hynny, cafodd y sgôr ei rannu yn ôl pwysoliad pob adran a chafodd cyfanswm cyffredinol ei lunio ar gyfer pob opsiwn.

Opsiwn	Sgôr
Opsiwn 1 – Gwneud Dim	30
Opsiwn 2 – Adnewyddu'r ysgol bresennol sydd eisoes wedi cyrraedd ei disgwyliad oes o 60 mlynedd	43
Opsiwn 3 – Adeiladu ysgol yr un maint ar y safle presennol	81
Opsiwn 4 – Adeiladu ysgol newydd, yr un maint ar safle newydd sy'n cynnwys gofal plant	94
Opsiwn 5 – Adeiladu ysgol newydd, fwy ar safle newydd sy'n cynnwys meithrinfa, gofal plant a Chanolfan Adnoddau Arbennig	105

Ar ôl gwerthuso'r opsiynau, cafodd y ddau opsiwn gyda'r sgoriau uchaf eu trosglwyddo i restr fer lle y cafodd manteision yr opsiynau eu hystyried. Mae'r tablau isod yn dangos hyn ar sail gwerthusiad cymharol:

Opsiwn 4 – Adeiladu ysgol newydd, yr un maint ar safle newydd sy'n cynnwys gofal plant

- Ysgol newydd sy'n cynnig cyfleusterau addysgol cyfoes o ansawdd uchel sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif.
- Cyflawni argymhellion bwletin adeiladu 99
- Y potensial i ddisgyblion presennol yr ysgol gyflawni deilliannau addysgol gwell drwy ddatblygu eu hamgylchedd dysgu.
- Gwellu mynediad i gyfleusterau dysgu awyr agored
- Gwellu cyfleusterau ac adeilad yr ysgol. Bydd y prosiect yn darparu adeilad ysgol a fydd yn fwy ynni effeithiol, yn lleihau'r gwaith cynnal a chadw wedi'i ôl-gronni ac yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Opsiwn 4 Adeiladu ysgol newydd, yr un maint ar safle newydd sy'n cynnwys gofal plant	
MANTEISION	ANFANTEISION
• Mynd i'r afael â phroblemau hirdymor addysgu disgyblion mewn adeilad dros dro sydd wedi derbyn gradd C/D ar gyfer addasrwydd a darparu ateb hirdymor • Gostyngiad yng nghostau cynnal a chadw a rhedeg yr adeilad yn barhaus	• Er mai dim ond 0.8 milltir o safle presennol yr ysgol y bydd yr adeilad newydd, bydd y dalgylch yn golygu bod plant eraill yn byw'n agosach iddi. • Ni fyddai'r adeilad newydd yn gallu cynnwys darpariaeth gofal plant,

• Darparu amgylchedd addysgu a gofal plant digonol a chyfartal i fodloni gofynion y Bwletin Adeiladu. • Gwell mynediad • Gwella'r ardal ddysgu yn yr awyr agored • Gwella deilliannau dysgu disgyblion • Darparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21ain Ganrif, gan gynnwys cyfleusterau TGCh gwell, sy'n canolbwyntio ar ddysgu, hunan-barch a llesiant pob disgybl a gwella'r cyfleoedd dysgu gydol oes i aelodau o'r gymuned gryfhau a diogelu'r broses o hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant a threftadaeth Cymru ledled ardal Dwyrain Caerffili.	Canolfan Adnoddau Arbennig na Defnydd i'r Gymuned • Ni fyddai'n gallu cyflawni'r targedau a nodwyd yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg • Ni fyddai'n sicrhau y gellir ehangu nifer y disgyblion
--	--

Opsiwn 5 – Adeiladu ysgol newydd, fwy ar safle newydd sy'n cynnwys meithrinfa, gofal plant a Chanolfan Adnoddau Arbennig

- Ysgol newydd sy'n cynnig cyfleusterau addysgol cyfoes o ansawdd uchel sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif.
- Cyflawni argymhellion bwletin adeiladu 99
- Y potensial i ddisgyblion presennol yr ysgol gyflawni deilliannau addysgol gwell drwy ddatblygu eu hamgylchedd dysgu.
- Gwella mynediad i gyfleusterau dysgu awyr agored
- Gwella cyfleusterau ac adeilad yr ysgol. Bydd y prosiect yn darparu adeilad ysgol a fydd yn fwy ynni effeithiol, yn lleihau'r gwaith cynnal a chadw wedi'i ôl-gronni ac yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Cynyddu'r ddarpariaeth gofal plant er mwyn sicrhau y gellir darparu gofal cofleidiol, ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau er mwyn ceisio gwella'r cyfraddau pontio drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng y ddarpariaeth gofal plant a'r cyfnod pontio
- Cynyddu nifer y dysgwyr cyfrwng Cymraeg drwy gynyddu'r ddarpariaeth Addysg a Gofal plant er mwyn helpu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gyflawni targed Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Cyfleuster â'r gallu i ateb y galw ymhlith y gymuned.

Opsiwn 5 Adeiladu ysgol newydd, fwy ar safle newydd sy'n cynnwys meithrinfa, gofal plant a Chanolfan Adnoddau Arbennig	
MANTEISION	ANFANTEISION
• Mynd i'r afael â phroblemau hirdymor o addysgu disgyblion mewn adeilad dros dro sydd wedi derbyn gradd C/D ar gyfer addasrwydd a darparu ateb yn yr hirdymor • Gallai adeilad ysgol parhaol ddenu	• Er mai dim ond 0.8 milltir o safle presennol yr ysgol y bydd yr adeilad newydd, bydd y dalgylch yn golygu bod plant eraill yn byw'n agosach iddi.

mwy o ddisgyblion a chyfleusterau • Ni fydd y gwaith adeiladu'n amharu ar weithrediadau o ddydd i ddydd yr ysgol bresennol • Gostyngiad yng nghostau cynnal a chadw a rhedeg yr adeilad yn barhaus • Cynyddu capasiti gan ddefnyddio trefniadau strategol • Cydymffurfio â phob polisi cenedlaethol a lleol • Cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 • Darparu ar gyfer anghenion addysgol a dewisiadau'r gymuned leol a chreu darpariaeth ddigonol, barhaol, gynaliadwy, sy'n addas at y diben. • Darparu amgylchedd addysgu a gofal plant digonol a chyfartal i fodloni gofynion y Bwletin Adeiladu. • Gwell mynediad • Gwella'r ardal ddysgu yn yr awyr agored • Gwella deilliannau dysgu disgyblion • Hwyluso'r gwaith o sefydlu darpariaeth gofal plant ychwanegol drwy ddarparu cyfleusterau priodol i wasanaethu'r gymuned. • Darparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21ain Ganrif, gan gynnwys cyfleusterau TGCh gwell, sy'n canolbwyntio ar ddysgu, hunan-barch a llesiant pob disgybl a gwella'r cyfleoedd dysgu gydol oes i aelodau o'r gymuned gryfhau a diogelu'r broses o hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant a threftadaeth Cymru ledled ardal Dwyrain Caerffili • Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbennig a diwallu Anghenion Dysgu Ychwanegol	
--	--

Drwy gyfuno'r arfarniadau, gellir dod i'r casgliad mai cynlluniau'r adeilad newydd fydd yn darparu'r cydbwysedd gorau o ran costau, buddiannau a risgiau a bod ailfodelu a'r opsiynau cyfyngedig o ran ailadeiladu'n cynnig gwerth gwael am arian ac yn cyflwyno risg uchel. Yn sgil hynny, cadarnhawyd mai **Opsiwn 5** yw'r dewis a ffefrir i'r Awdurdod.



Y Camau Nesaf

➤ Y Cyfnod Ymgynghori a Dyddiadau Allweddol

Bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn dechrau ddydd Llun 14 Medi 2020

Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael yn electronig ar wefan y Cyngor. Am ragor o wybodaeth ewch i:

<https://www.caerffili.gov.uk/Services/Schools-and-learning/21st-Century-Schools?lang=cy-gb>

Mae Fersiwn Gryno Syml o'r ymgynghoriad hwn ar gael i Blant a Phobl Ifanc. Mae'r fersiwn hon a'r fersiwn lawn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a gellir hefyd gofyn am gopiâu wedi'u hargraffu.

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn unrhyw fformat arall, er enghraifft print bras, neu os hoffech gael help i'w dehongli mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 01445 864817 fel y gallwn wneud y trefniadau gofynnol i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw hanner nos ddydd Llun 26 Hydref 2020

Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

➤ Hysbysiadau Statudol, Cyflwyno Adroddiadau a Gwneud Penderfyniadau

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd Cabinet Caerffili yn derbyn Adroddiad ar yr Ymgynghoriad a fydd yn nodi'r cynnig a'r holl sylwadau a dderbynnir gan y cyhoedd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ar y cam hwn, gall yr aelodau benderfynu p'un a ydynt am barhau gyda'r cynnig, gwneud newidiadau i'r cynnig neu roi'r gorau i'r cynnig.


Os bydd y Cabinet yn penderfynu parhau â'r cynnig, caiff Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi yn rhoi rhybudd o 28 diwrnod i dderbyn gwrthwynebiadau. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn golygu y bydd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn iddynt gael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau'n ysgrifenedig a'u hanfon i'r Cyngor o fewn 28 diwrnod.

Yna, bydd y Cabinet yn ystyried canlyniad yr Hysbysiad statudol mewn cyfarfod yn y dyfodol ac yn penderfynu p'un a gaiff y cynnig ei roi ar waith ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a ddarparwyd.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebiad yn darparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cabinet i'r gwrthwynebiadau hynny cyn pen 7 diwrnod neu'r diwrnod y penderfynwyd ar y cynnig.

Gall pawb weld yr adroddiad ar wefan y Cyngor a bydd copïau papur ar gael ar gais.

Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig, caiff Achos Busnes ei gyflwyno i Weinidog Cymru roi cymeradwyaeth derfynol ac yna bydd y gwaith yn dechrau.



➤ Dweud eich dweud

Mae eich barn yn bwysig ac hoffem glywed eich barn am y newidiadau rydym wedi'u cynnig yn y ddogfen hon. Hoffem i chi ystyried y wybodaeth yn y ddogfen a chlywed p'un a ydych o blaid y cynnig ai peidio. Caiff pob barn ei chroesawu o blaid neu yn erbyn y cynnig. Dyma'ch cyfle chi i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau a gaiff eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu sut i weithredu.

Am ragor o wybodaeth ewch i:

<https://www.caerffili.gov.uk/Services/Schools-and-learning/21st-Century-Schools?lang=cy-gb>

Ar gyfer y cynnig hwn, byddwn yn cynnal ymarfer ymgynghori ar bapur. Yn sgil goblygiadau COVID-19 ar hyn o bryd, ni fyddwn yn cynnal unrhyw sesiynau ymgynghori wyneb yn wyneb er mwyn cadw pellter cymdeithasol ac yn cynnal arferion gweithio diogel i bawb.

Os hoffech gyflwyno sylwadau ar y cynnig, gallwch wneud hyn drwy wneud y canlynol:

- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor
- Cwblhau'r ffurflen ymateb sydd wedi'i hatodi i'r ddogfen hon a'i dychwelyd i Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif yng Nghaerffili
- Anfonwch eich e-bost i ^{Dîm} Ysgolion yr 21ain Ganrif

Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif **Cyngor Caerffili** **Caerphilly Council's** 21st Century Schools Programme



Ymateb i Ymgynghoriad 'Cwm Gwyddon'

d/o Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif
Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
CF82 7PG

Ysgolionyr21ainGanrif@caerffili.gov.uk

<https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/21st-Century-Schools?lang=cy-gb>



Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools

Noder mai dim ond sylwadau ysgrifenedig y gallwn eu derbyn, naill ai drwy'r ffurflen ar-lein, y ffurflen ymateb neu dros e-bost. Rhaid i chi gynnwys eich enw llawn a'ch cyfeiriad post fel rhan o'r wybodaeth a ddarperir.




Gwybodaeth Ategol

➤ Cwestiynau Cyffredin

Mae gan y Cyngor a Thîm Ysgolion yr 21ain Ganrif hanes o redeg prosiectau arloesol a thrawsffurfiol fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band A a thu hwnt.

O 21 Medi tan 28 Medi, bydd Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif yn coladu rhestr o'ch ymholiadau ar ffurf dogfen 'Cwestiynau Cyffredin' a gaiff ei diweddarau ar ddiwedd yr wythnos honno a'i chyhoeddi ar y wefan.

➤ Ffurflen Adborth



Dogfen Ymgynghori Ysgolion yr 21ain Ganrif 2020

YSGOL GYMRAEG CWM GWYDDON

FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Yma yng Nghaerffili, mae gennym ni uchelgeisiau beiddgar i roi'r cyfleoedd bywyd gorau i bob dysgwr ac rydyn ni wedi ymrwymo i wneud hyn trwy ddarparu amgylchedd addysgu a dysgu o ansawdd uchel fel rhan o'n rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mewn rhai achosion, gellir moderneiddio, atgyweirio, adnewyddu, ymestyn, neu ailadeiladu ysgolion yn rhannol i gyrraedd y safonau sydd eu hangen ar gyfer addysgu a dysgu cyfoes. Fodd bynnag, nid yw rhai ysgolion presennol bellach yn y lle iawn nac yn cwrdd â galw disgyblion. Mewn achosion o'r fath, gallen ni gynnig ysgolion newydd neu newidiadau i ysgolion sy'n bodoli eisoes.



Ysgolion yr 21ain Ganrif 21st Century Schools



Hoffai'r Cyngor wneud 'newid a reoleiddir' i ysgol a gynhelir.

Mae'r ymateb hwn yn ymwneud â'r canlynol:

**Adleoli Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon i ysgol Gymraeg
bwrpasol newydd ar hen safle Ysgol Uwchradd Cwmcarn**

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 26 Hydref 2020.

Argymhellir eich bod yn darllen y wybodaeth gefndir cyn cwblhau'r holiadur hwn.

Fel arall, gallwch fynd i'n gwefan a chwblhau'r arolwg ar-lein yn:
<https://www.caerffili.gov.uk/Services/Schools-and-learning/21st-Century-Schools?lang=cy-gb>

Rydym yn casglu'r wybodaeth hon fel rhan o'n rhwymedigaeth o dan [God Trefniadaeth Ysgolion \(Tachwedd 2018\)](#) Llywodraeth Cymru.

Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol:

Caiff y wybodaeth a ddarperir gennych ei defnyddio gan y maes gwasanaeth sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad / arolwg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Caiff y sylwadau a fynegir eu casglu gyda'i gilydd a'u defnyddio i greu adroddiad cryno. Yn dibynnu ar gwmpas / natur yr arolwg / ymgynghoriad, caiff yr adroddiad cryno ei ddefnyddio i werthuso ac ailfodelu gwasanaethau / blaenoriaethau ac ati. Ni fyddwn yn cadw eich sylwadau mewn ffordd lle y gellir eich adnabod am gyfnod hwy nag sydd ei angen.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth sydd gennym amdanoch, gan gynnwys yr hawl i weld eich gwybodaeth a'r hawl i gwyno os byddwch yn anfodlon ar y ffordd y caiff eich gwybodaeth ei phrosesu. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r ffordd rydym yn prosesu gwybodaeth a'ch hawliau, dilynwch y ddolen hon:

<https://www.caerffili.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/Privacy-Notice-Consultations-Surveys-cy.aspx>

Amdanat ti:

Rwy'n ymateb l'r arolwg hwn fel:

Disgybl ☐ Rhiant ☐ Aelod o staff ☐ Llywodraethwr ysgol ☐

o'r ysgol y mae'r cynnig hwn yn effeithio arni / neu

Aelod etholedig ☐ Arall (rhowch fanylion)

Enw mewn Llythrennau Bras:

Cyfeiriad:

Cod post:

E-bost:

Bydd pob Dogfen Ymgynghori ar wefan y Cyngor.

Os hoffech gael eich hysbysu bod yr adroddiad ar yr ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod, ticiwch yma: ☐

Noder y bydd y Cabinet yn ystyried pob sylw a wneir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn ystod cam cyntaf y broses. Dim ond ar ôl i hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi y gellir cofrestru Ymatebion Ffurfiol. Ceir manylion llawn am y Broses Ymgynghori yn y Ddogfen Ymgynghori lawn.

Mae eich sylwadau'n bwysig.

Rhowch eich barn ar y cynnig drwy gwblhau'r holiadur hwn a'i ddychwelyd drwy'r post neu dros e-bost:

Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif **Cyngor Caerffili** **Caerphilly Council's 21st Century Schools Programme**



Ymateb i Ymgynghoriad 'Cwm Gwyddon'

d/o Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif
Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
CF82 7PG

Ysgolionyr21ainGanrif@caerffili.gov.uk

<https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/21st-Century-Schools?lang=cy-gb>



Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools



Nodwch pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu eich barn ar y cynnig orau:

Nid wyf yn teimlo'n gryf y naill ffordd neu'r llall ☐

Rwy'n cefnogi'r cynnig ☐

Nid wyf yn cefnogi'r cynnig ☐

Nodwch eich sylwadau ar y cynnig:

Cydraddoldebau a Monitro:

Ydych Chi...	Yn wryw ☐	Mae'n well gen i beidio â dweud ☐
	Yn fenyw ☐	
	Arall (nodwch)	

Oedran	Dan 16 oed ☐	40-65 ☐
	16-25 ☐	Dros 65 oed ☐
	26-39 ☐	Mae'n well gen i beidio â dweud ☐

Anabledd	Nid wyf yn Anabl ☐	Anawsterau Dysgu ☐
	Nam Corfforol / Symudol ☐	Nam ar y Golwg ☐
	Nam ar y Clyw ☐	Nam Lleferydd ☐
	Mae'n well gen i beidio â dweud ☐	
	Arall (nodwch)	

Sgiliau Cymraeg		Rhywfaint	Gweddol	Eithaf Da	Rhugl
	Siarad	☐	☐	☐	☐
	Deall	☐	☐	☐	☐
	Darllen	☐	☐	☐	☐
	Ysgrifennu	☐	☐	☐	☐
	Dim Sgiliau Cymraeg ☐		Mae'n well gen i beidio â dweud ☐		

Os ydych o'r farn bod unrhyw un o'r canlynol wedi dylanwadu (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar eich ymateb i'r arolwg hwn: eich tarddiad ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, credoau crefyddol neu ddiffyg cred, defnydd o'r Gymraeg, BSL neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd neu gyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion, nodwch y manylion isod.